# Prifysgol Aberystwyth

# Telerau ac Amodau Israddedigion

(Myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau ym mis Medi 2022)

**<u>Telerau ac Amodau Cyffredinol i Israddedigion Prifysgol Aberystwyth sy'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau ym mis Medi 2022</u>**

**Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn ymwneud â darparu gwasanaethau academaidd a chysylltiedig i chi gan Brifysgol Aberystwyth (y "Brifysgol") mewn cysylltiad â'ch lle israddedig ar un o raglenni astudio'r Brifysgol. Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn rhan o'r contract rhyngoch chi a ni, ac maent hefyd yn cynnwys y dogfennau ychwanegol a restrir ym mharagraff 1 (y "Contract"). Gallwch ymrwymo i gontractau eraill â'r Brifysgol am wasanaethau eraill, megis llety neu aelodaeth o'r gampfa.**

**Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig ynglŷn â hawliau a chyfrifoldebau'r Brifysgol a chithau o dan y Contract.**

**Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn darllen y Telerau ac Amodau hyn yn ofalus cyn derbyn y cynnig sydd yn ein llythyr cynnig (gweler paragraffau 1.09 ac 1.10 i gael gwybod sut i dderbyn ein cynnig) a anfonwyd atoch. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r telerau ac amodau hyn neu os oes angen mwy o fanylion arnoch, cysylltwch â'r Swyddfa Derbyn Israddedigion: ug-admissions@aber.ac.uk neu 01970 622021.**

**Byddwch yn ymrwymo i'ch Contract â ni pan dderbyniwch ein cynnig o le.**

**Mae'r Brifysgol am dynnu eich sylw'n benodol at baragraffau 4, 6 ac 8 sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am ein hawliau i amrywio'r Contract â chi (gan gynnwys y Gwasanaethau (a ddiffinnir isod) a ddarperir o dan y Contract), ein hatebolrwydd i chi a'n hawliau i derfynu'r Contract â chi.**

**1. Cyflwyniad a gwybodaeth am ein Contract â chi a sut a phryd y mae'n cael ei lunio**

<u>Amdanom ni</u>

1.1 Prifysgol Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3FL.

1.2 Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn nodi'r berthynas rhwng y Brifysgol ("ni", "ein") a chi.

<u>Ein Cynnig</u>

1.3 Byddwn yn anfon llythyr cynnig atoch yn cynnig lle i chi ar raglen astudio gyda ni, a bydd y llythyr cynnig hwn, lle y bo hynny'n berthnasol, yn eich cyfeirio i wefan UCAS Track sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ein cynnig i chi, a gyda'i gilydd, y llythyr cynnig a'r wybodaeth a ddarperir ar UCAS Track yw ein "Cynnig". Bydd y Cynnig yn nodi (neu fel arall yn eich cyfeirio at wybodaeth bwysig arall sy'n gysylltiedig â'r Cynnig) gwybodaeth bwysig ynghylch:

1.3.1 y rhaglen rydych wedi dewis ei hastudio, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn â'r ffordd y cyflenwir y rhaglen (y "Gwasanaethau");

1.3.2 manylion y ffioedd dysgu sy'n daladwy gennych gydol y rhaglen (y "Ffioedd");

1.3.3 hyd y rhaglen, y dyddiad cychwyn a manylion ynghylch ble y cyflenwir y Gwasanaethau;

1.3.4 manylion unrhyw amodau (yn rhai academaidd, fel y nodir yn UCAS Track, neu eraill, a all fod wedi'u nodi yn y llythyr cynnig) a allai fod ynghlwm wrth eich Cynnig (sy'n ychwanegol i'r amodau a amlinellir ym mharagraffau 1.4–1.7 (yn gynhwysol) isod);

1.3.5 manylion y gwasanaethau bugeiliol ac academaidd-gysylltiedig y byddwn yn eu cynnig i chi yn ystod eich amser gyda ni;

1.3.6 man astudio, lle bo'ch cynnig yn gysylltiedig â chwrs a ddarperir oddi ar y safle (h.y. nid yn Aberystwyth); a

1.3.7 gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'ch astudiaethau gyda ni.

Amodau sydd ynghlwm wrth eich Cynnig

1.4 Wrth gyflwyno cais i'r Brifysgol, gofynnir i chi ddatgan bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn wir, yn gyflawn, yn gywir ac nad yw'n gamarweiniol. Os bydd unrhyw wybodaeth yn anghywir, yn anghyflawn, yn anwir neu'n gamarweiniol, mae'n bosib y byddwn: yn gwrthod ystyried eich cais ymhellach; yn tynnu unrhyw Gynnig yn ôl; neu'n terfynu eich Contract (fel y bo'n berthnasol).

1.5 Gall ein Cynnig gynnwys gofynion a/neu amodau penodol ar gyfer eich derbyn ar eich rhaglen a/neu barhau i fod wedi'ch cofrestru ar eich rhaglen (boed wedi'u nodi yn eich llythyr cynnig neu, lle y bo hynny'n berthnasol, ar UCAS Track). Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth foddhaol o'ch cymwysterau i ni, a'ch bod wedi cydymffurfio ag unrhyw amodau, pan ofynnwn i chi wneud hynny. Os na fyddwch yn bodloni unrhyw rai o'r amodau hyn neu os na fyddwch yn parhau i'w bodloni, neu os na roddwch dystiolaeth resymol i ni eich bod wedi bodloni'r amodau hyn, mae'n bosib y byddwn yn terfynu eich Contract yn unol â pharagraff 6.

1.6 Mae'n un o amodau eich Contract eich bod yn cofrestru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd hyd ddiwedd eich astudiaethau gyda ni. Cewch gofrestru ar-lein drwy eich cyfrif Cofnod Myfyriwr unigryw. Cewch wybod sut i gofrestru cyn dechrau pob blwyddyn academaidd. Mae'n orfodol i bob myfyriwr gofrestru. Bydd peidio â chofrestru'n arwain at atal eich hawl i ddefnyddio cyfleusterau'r Brifysgol, ni fydd gennych hawl i dderbyn y Gwasanaethau a bydd gennym hawl i derfynu ein Contract yn unol â pharagraff 6.

Ein Contract a'r hyn y mae'n ei gynnwys

1.7 Mae'r Contract rhyngoch chi a ni yn cynnwys:

1.7.1 yr wybodaeth a geir yn y Telerau ac Amodau hyn;

1.7.2 y telerau (gan gynnwys unrhyw amodau perthnasol) a geir yn y Cynnig; a'r

1.7.3 polisïau a'r dogfennau y cyfeirir atynt yn Atodlen 1, sydd wedi'i hatodi.

1.8 Cawn wneud newidiadau i'r Contract a/neu'r Gwasanaethau fel y disgrifir ym mharagraff 8.

Sut i dderbyn ein Cynnig a phryd y ffurfir ein Contract

1.9 Bydd y Contract rhyngoch chi a'r Brifysgol yn cychwyn pan dderbyniwch Gynnig o le ar gynllun gradd israddedig. Os gwnewch gais drwy UCAS, gallwch dderbyn y Cynnig gan ddefnyddio system UCAS Track. Os gwnewch gais drwy lwybr arall, gallwch dderbyn y Cynnig drwy ddychwelyd y ffurflen Ymateb i Gynnig sydd wedi'i chynnwys gyda'ch llythyr cynnig. Trwy dderbyn eich Cynnig rydych yn cytuno i gadw at delerau ac amodau'r Contract.

1.10 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ffurfir Contract rhyngom pan dderbyniwch Gynnig hyd yn oed mewn amgylchiadau pan ddewiswch ni fel eich "dewis wrth gefn". Disgrifir eich hawl i derfynu'r Contract hwn ym mharagraff 6.

**2.** Ffioedd

Eich Ffioedd

2.1 Nodir y Ffioedd y byddwch yn atebol i'w talu mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau yn eich Cynnig, a phennir y rhain gan eich "statws ffioedd". Gweler paragraff 2.4 isod.

2.2 Sylwer, os oes trydydd parti neu noddwr yn talu eich Ffioedd ar eich rhan, byddwch yn gyfrifol am dalu'r Ffioedd sy'n ddyledus i ni os na fydd y trydydd parti neu'r noddwr yn talu'r Ffioedd i ni pan fyddant yn ddyledus.

2.3 Ceir manylion ynglŷn â threfnu i dalu eich Ffioedd yn y llyfryn 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus' sydd wedi'i atodi gyda'ch Cynnig, ac sydd hefyd ar gael ar ein gwefan.

Eich statws ffioedd

2.4 Naill ai 'Cartref' neu 'Ryngwladol' fydd eich statws ffioedd a chewch wybod eich statws yn ystod y broses dderbyn. Mae gennych hawl i apelio yn erbyn y statws ffioedd a glustnodir i chi os ydych yn anghytuno â phenderfyniad y Brifysgol. Er mwyn gwneud hyn, dylech gysylltu â'r Cofrestrydd Academaidd, Prifysgol Aberystwyth, Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3DD yn ysgrifenedig drwy e-bostio aqrstaff@aber.ac.uk neu'r drwy'r post: Prifysgol Aberystwyth, Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3DD. Bydd Cofrestrydd Academaidd yn cysylltu â chi ymhen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law. Os na fyddwch yn fodlon â'r ymateb cychwynnol a gewch, dylech gysylltu'n ysgrifenedig â'r Dirprwy Is-Ganghellor - Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth, y Ganolfan Ddelweddu, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3BF. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn ceisio rhoi ymateb cychwynnol ymhen pum diwrnod gwaith. Bydd eich statws ffioedd yn para gydol eich astudiaethau.

2.5 Os bydd angen cynnal a gweithredu ailasesiad o'ch statws ffioedd, cymhwysir yr effaith ar y ffioedd ar ddechrau'r flwyddyn astudio academaidd nesaf. Cynhelir pob ailasesiad o'r fath yn unol â'r ddeddfwriaeth ynghylch statws ffioedd sydd mewn grym ar y pryd.

Peidio â thalu Ffioedd eich rhaglen

2.6 Trwy dderbyn Cynnig gan y Brifysgol, rydych yn cytuno i dalu'r holl Ffioedd pan fyddant yn ddyledus, gan gynnwys unrhyw gostau a threuliau ychwanegol (e.e. gwaith maes gorfodol, ailsefyll arholiadau), yn unol â'n telerau talu a nodir ym mharagraff 2.3. Os methwch dro ar ôl tro â gwneud y taliadau gofynnol, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i derfynu ein Contract o dan baragraff 6.1.11.

Newidiadau i Ffioedd eich rhaglen

2.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol i weld a ganiateir i brifysgolion yng Nghymru gynyddu ffioedd y rhaglen ai peidio ar gyfer myfyrwyr sydd â statws ffioedd 'Cartref'. Os caniateir cynnydd chwyddiannol, ac os bydd y Brifysgol yn rhoi'r cynnydd hwn ar waith, byddai hyn yn berthnasol i israddedigion newydd a'r rhai sy'n parhau sydd â statws ffioedd 'Cartref'. Bydd unrhyw gynnydd hefyd yn berthnasol i'r ffioedd cyfrannol a godir am Flwyddyn Dramor neu Flwyddyn mewn Diwydiant.

2.8 Er enghraifft, os yw eich ffioedd yn £9,000 yn y flwyddyn gyntaf, a'r cynnydd cysylltiedig â chwyddiant a ganiateir gan Lywodraeth Cymru'n 3% y flwyddyn, bydd y Brifysgol yn cynyddu eich ffi i £9,270 yn yr ail flwyddyn a £9,548 yn y drydedd flwyddyn (sef cyfanswm o £27,818 ar gyfer rhaglen israddedig dair blynedd nodweddiadol).

2.9 Byddwn yn cadarnhau unrhyw gynnydd cysylltiedig â chwyddiant yn y pris yn flynyddol cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau.

2.10 Nid yw Ffioedd Rhaglen ar y raddfa Ffioedd 'Ryngwladol' wedi'u cynnwys yn rheoliad Llywodraeth Cymru ac ni fydd yn amodol ar gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant blynyddol yn ystod eich astudiaethau. Golyga hyn

y bydd y Ffioedd 'Rhyngwladol' a godir ym mlwyddyn un yn aros ar yr un lefel ar gyfer holl flynyddoedd dilynol y rhaglen astudio.

2.11 Bydd Ffioedd Rhaglen a godir ar gyfer cyrsiau dysgu o bell yn amodol ar gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant blynyddol yn ystod eich astudiaethau fel y pennir gan y Brifysgol ac sy'n berthnasol i fyfyrwyr newydd a'r rhai sy'n parhau. Byddwn yn cadarnhau unrhyw gynnydd mewn pris sy'n gysylltiedig â chwyddiant gyda chi yn flynyddol cyn gynted ag y cânt eu cadarnhau gan y Brifysgol.

2.12 Gellid gwneud newidiadau hefyd os yw darpariaethau paragraff 2.6 uchod yn berthnasol.

Cwestiynau am Ffioedd eich rhaglen

2.13 Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ffioedd neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch ynglŷn â thalu'r ffioedd hynny (gan gynnwys os ydych yn cael anhawster talu eich Ffioedd), cysylltwch â'r Swyddfa Ffioedd: fees@aber.ac.uk

**3.** Eich Hawl Statudol i Ganslo

3.1 Mae gennych hawl gyfreithiol i ganslo'r Contract am unrhyw reswm ymhen 14 diwrnod (y cyfnod "Ailfeddwl") o'r dyddiad y derbyniwch ein Cynnig. Os byddwch yn canslo yn ystod y cyfnod hwn bydd y Brifysgol yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd (os yw hynny'n berthnasol), ac ni fyddwch yn rhwym wrth y Telerau ac Amodau hyn.

3.2 I ganslo eich Contract yn y modd hwn, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol am eich penderfyniad i ganslo'r Contract hwn trwy wneud datganiad clir. Dylech arfer eich hawl i ganslo drwy roi gwybod i UCAS neu gysylltu â ni yn ug-admissions@aber.ac.uk. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffurflen Ailfeddwl enghreifftiol yn Atodlen 2, ond nid oes raid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon.

3.3 Er mwyn cadw at ddyddiad terfyn y Cyfnod Ailfeddwl, mae'n ddigon i chi anfon eich gohebiaeth ynghylch arfer eich hawl i ganslo cyn i'r Cyfnod Ailfeddwl ddod i ben.

3.4 Gallwn ddarparu Gwasanaethau i chi cyn diwedd y Cyfnod Ailfeddwl os gofynnwch i ni wneud hynny, er enghraifft os ydych yn ymgeisio'n fuan iawn cyn dechrau eich tymor cyntaf, ond ni fydd hyn yn eich rhwystro rhag canslo'r Contract yn ystod y Cyfnod Ailfeddwl. Er hynny, os penderfynwch ganslo'r Contract ar ôl i ni ddechrau darparu'r Gwasanaethau hyn i chi, bydd gennym hawl i dynnu swm teg o unrhyw ad- daliad i dalu am fudd y Gwasanaethau y byddwch wedi'u derbyn hyd nes i chi roi gwybod i ni eich bod am ganslo.

3.5 Os byddwch am ganslo'r Contract ar ôl diwedd y Cyfnod Ailfeddwl, chewch chi ond gwneud hynny'n unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 6.3.

**4.** Rhwymedigaethau'r Brifysgol a'n hatebolrwydd i chi

Ein rhwymedigaethau

4.1 Yn ystod cyfnod y Contract (fel y'i disgrifir yn ein Cynnig) mae'r Brifysgol yn cytuno i ddarparu Gwasanaethau i chi (gan gynnwys cyflenwi'r Rhaglen) â phob gofal a medr rhesymol ac yn unol â thelerau'r Contract hwn. Gweler paragraffau 9 a 10 i gael gwybod sut y gallwch godi unrhyw broblemau rydych yn eu cael â'r Contract hwn.

Yr hyn yr ydym yn atebol i chi amdano

4.2 Os na fodlonwn ein rhwymedigaethau o dan y Contract hwn, rydym yn gyfrifol am golled neu ddifrod a ddioddefwch sy'n ganlyniad rhagweladwy i'r ffaith ein bod wedi torri'r Contract hwn neu ein hesgeulustod, ond nid ydym yn gyfrifol am unrhyw golled na difrod nad yw'n rhagweladwy. Mae colled neu ddifrod yn rhagweladwy os ydynt yn ganlyniad amlwg i'r ffaith i ni dorri'r Contract neu os cawsant eu hystyried gennych

chi neu gennym ni adeg ymrwymo i'r Contract hwn. Ni fydd y Brifysgol yn derbyn cyfrifoldeb am fethu â chyflawni, neu am oedi wrth gyflawni, unrhyw un o'u rhwymedigaethau os caiff ei achosi gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth resymol. Mae hyn yn cynnwys yn arbennig weithredu diwydiannol.

4.3 Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu yn unrhyw fodd ein hatebolrwydd ynghylch:

4.3.1 marwolaeth neu anaf personol a achosir trwy ein hesgeulustod ni neu esgeulustod ein cyflogeion, asiantau neu is-gontractwyr;

4.3.2 twyll neu gamliwio twyllodrus; neu

4.3.3 unrhyw fater arall na chaniateir i ni ei eithrio na chyfyngu ein hatebolrwydd o dan y gyfraith.

**5.** Eich rhwymedigaethau

5.1 Yn ystod cyfnod y Contract, rydych yn cytuno i wneud yr isod:

5.1.1 cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan y Contract hwn, gan gynnwys y rhwymedigaethau a nodir ym mhob un o'r dogfennau a restrir yn Atodlen 1;

5.1.2 datgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eich astudiaethau eich hun a/neu beri risg i ddiogelwch staff a myfyrwyr y Brifysgol. Eich cyfrifoldeb chi yw datgelu unrhyw resymau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar, neu'n eich atal rhag, mynd i mewn i eiddo'r brifysgol, a/neu weithio gydag unigolion, a/neu weithio gyda grwpiau, a/neu gael mynediad i'r rhyngrwyd drwy system ac adnoddau'r Brifysgol. Cysylltwch â'r Gofrestrfa Academaidd i gael rhagor o fanylion trwy'r cyfeiriad e-bost cyfrinachol: arconf@aber.ac.uk. Os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei datgan gellid ystyried eich bod yn torri Trefn Ddisgyblu'r Brifysgol ac mae'n bosibl y ceir cosbau yn unol â hynny;

5.1.3 talu'r Ffioedd (ac unrhyw daliadau ychwanegol, gan gynnwys ffioedd ailsefyll arholiadau) pan fyddant yn ddyledus;

5.1.4 gweithio'n ddiwyd ac yn effeithlon;

5.1.5 mynd i bob dosbarth a seminar yn brydlon;

5.1.6 cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Contract hwn;

5.1.7 ceisio cael sgôr 100% o ran presenoldeb prydlon. Os na allwch fod yn bresennol, neu os oes raid i chi ddechrau'n hwyr neu adael yn gynnar, rhaid i chi roi gwybod i'r darlithydd/tiwtor;

5.1.8 dod i'r dosbarthiadau wedi paratoi'n briodol – er enghraifft drwy fod wedi darllen y deunydd gofynnol;

5.1.9 cyflwyno pob asesiad a bod yn bresennol mewn cyflwyniadau ffurfiol ac arholiadau sy'n ofynnol er mwyn cwblhau eich rhaglen;

5.1.10 peidio â tharfu ar weithgareddau academaidd unrhyw aelod o'r gymuned academaidd;

5.1.11 peidio â tharfu ar weinyddiaeth a gweithrediad cyffredinol y Brifysgol;

5.1.12 peidio â dwyn anfri ar y Brifysgol nac achosi atebolrwydd ar ran y Brifysgol;

5.1.13 peidio â chymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol;

5.1.14 peidio â difrodi, difwyno na chamddefnyddio eiddo'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr, unrhyw sefydliad neu gorff myfyrwyr arall yn y Brifysgol nac unrhyw aelod arall o'r gymuned academaidd neu gyflogai i'r Brifysgol;

5.1.15 peidio ag ymroi i weithgarwch sy'n groes i bolisi'r Brifysgol ar Gyfle Cyfartal: https://www.aber.ac.uk/cy/equality/about/;

5.1.16 parchu hawlfraint pob deunydd, gan gynnwys deunydd y mae ei hawlfraint yn eiddo i'r Brifysgol ei hun neu i aelodau o'r staff. Ni ddylid rhoi deunydd o'r fath (e.e. nodiadau darlithoedd, nodiadau ymchwil, cyhoeddiadau, darlithoedd wedi'u recordio) ar y we heb ganiatâd datganedig yr aelod o staff perthnasol a/neu Reolwr Hawlfraint y Brifysgol;

5.1.17 cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer Prifysgol Aberystwyth ar Ryddid i Lefaru fel y'i nodir yng Ngwybodaeth y Brifysgol i Fyfyrwyr; a

5.1.18 peidio ag annog, cynorthwyo na chydgynllwynio ag unrhyw un arall i weithredu mewn modd sy'n torri'r rheolau hyn. Pan wneir honiad fod myfyriwr wedi cyflawni gweithred droseddol, mae'r Brifysgol yn cadw disgresiwn llwyr i benderfynu a ddylid rhoi'r Weithdrefn Ddisgyblu ar waith, atal ei hymchwiliadau hyd nes y bydd y llysoedd wedi ymdrin â'r mater, neu adael y mater yn nwylo'n heddlu.

**6.** Sut y gellir terfynu neu atal y Contract hwn

Bydd eich Contract yn dod i ben yn awtomatig ar y dyddiad dod i ben a restrir ar eich cofnod myfyriwr, neu'n gynt os terfynir y Contract yn unol â darpariaethau'r paragraff 6 hwn.

<u>Ein hawliau i derfynu'r Contract a beth fydd yn digwydd os terfynwn y Contract</u>

6.1 Gallwn derfynu'r Contract drwy roi rhybudd i chi yn yr amgylchiadau isod:

6.1.1 Os nad ydych yn bodloni unrhyw amodau a nodir yn y Cynnig (neu os nad ydych yn parhau i'w bodloni tra byddwch yn cymryd rhan yn y rhaglen);

6.1.2 Os rhoddwch wybodaeth dwyllodrus i ni neu wybodaeth nad yw'n wir, neu sy'n anghywir, yn anghyflawn a/neu'n gamarweiniol;

6.1.3 Os na chofrestrwch neu os na ail-gofrestrwch yn unol â'r amserlen a roddir i chi cyn dechrau pob blwyddyn academaidd;

6.1.4 Os oes newid yn eich amgylchiadau rhwng derbyn cynnig a dechrau'r rhaglen sydd, yn ein barn resymol ni, yn ei gwneud yn amhriodol i chi astudio ar eich rhaglen;

6.1.5 Os na chydymffurfiwch mewn modd perthnasol ag unrhyw rwymedigaethau arnoch a nodir yn y Contract hwn (gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw rwymedigaeth a ddisgrifir yn y dogfennau a restrir yn Atodlen 1, a atodwyd, a'r rhwymedigaethau a nodir ym mharagraff 5);

6.1.6 Os yw'r Brifysgol yn penderfynu, ar ôl dilyn ein gweithdrefn camymddygiad academaidd, y weithdrefn ddisgyblu neu brosesau eraill, nad oes gennych hawl i barhau â'ch rhaglen;

6.1.7 Os ceir chi'n euog o drosedd dditiadwy yn y DU neu drosedd gyfatebol mewn gwlad arall;

6.1.8 Os yw eich ymddygiad, yn ein barn resymol ni, yn achosi perygl arwyddocaol i'ch iechyd, eich diogelwch neu'ch lles chi eich hun neu eraill;

6.1.9 Pan fo parhau i fod wedi'ch cofrestru gyda'r Brifysgol yn peri ein bod, neu'n bygwth peri ein bod, yn torri unrhyw rai o'n rhwymedigaethau cyfreithiol i gydymffurfio â gofynion mewnfudo'r DU neu ofynion eraill, a gallai hynny hefyd beri bod y Brifysgol yn tynnu nawdd Fisa Myfyriwr yn ôl os na chydymffurfiwch â'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfer fisâu fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Gartref;

6.1.10 Os ydych wedi methu dro ar ôl tro â thalu eich Ffioedd ac wedi anwybyddu negeseuon atgoffa ffurfiol;

6.1.11 Os na chadarnhewch, ar ôl cael cynnig i ail-wneud blwyddyn, eich bod am ail-wneud y flwyddyn erbyn y dyddiad cau a bennwyd.

6.2 Os bydd y Brifysgol yn terfynu'r Contract am unrhyw reswm a nodir ym mharagraff 6.1 uchod, ni chewch eich rhyddhau'n awtomatig o'ch rhwymedigaeth i dalu'r Ffioedd, ac mae'n bosib y byddwch yn atebol am weddill unrhyw Ffioedd sy'n daladwy, oni chytunwn â chi ar ad-daliad priodol. Yn ogystal, bydd yr amodau isod yn berthnasol:

6.2.1 Ni chewch fynychu'r Brifysgol mwyach;

6.2.2 Rhaid i chi ddychwelyd unrhyw eiddo sydd biau'r Brifysgol yn unol â'r cyfarwyddyd a roddir;

6.2.3 Bydd gennym hawl, lle y bo hynny'n berthnasol, i derfynu contract eich llety a reolir gan y Brifysgol, neu unrhyw gontract arall rydych wedi ymrwymo iddynt gyda'r Brifysgol.

<u>Eich hawliau i derfynu'r Contract a beth fydd yn digwydd os terfynwch chi'r Contract</u>

6.3 Mae gennych hawl i derfynu'r Contract gyda rhybudd yn yr amgylchiadau isod:

6.3.1 os ydych wedi ein dewis fel dewis yswiriant ar system UCAS Track, a'ch bod yn penderfynu astudio yn y sefydliad rydych wedi'i nodi'n ddewis pendant cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Os felly, ni fyddwch yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd a/neu gostau cysylltiedig i ni;

6.3.2 os nad ydych yn derbyn unrhyw newidiadau sylweddol a wneir i'r Gwasanaethau a/neu'r Contract yn unol â pharagraff 8.11. Os felly, rhaid i chi roi gwybod i ni am y penderfyniad hwn erbyn 26 Medi 2022 ac ni fyddwch yn gyfrifol i ni am Ffioedd a/neu gostau cysylltiedig parhaus, ond mae'n bosib na fydd gennych hawl i gael ad-daliad o'r Ffioedd a dalwyd hyd at y dyddiad y daw'r Contract i ben;

6.3.3 os ydym yn torri'n sylweddol ein rhwymedigaethau i chi o dan y Contract i ddarparu'r Gwasanaethau. Os felly, mae'n bosib y bydd gennych hawl i gael ad-daliad cyfrannol o unrhyw Ffioedd a dalwyd o'r dyddiad terfynu;

6.3.4 os ydych yn arfer eich hawliau i ganslo yn ystod y Cyfnod Ailfeddwl o dan baragraff 3, ac os felly, ni fyddwch yn atebol am dalu'r Ffioedd; ac

6.3.5 ar unrhyw adeg arall heb reswm. Os rhoddwch rybudd o'ch bwriad i derfynu'r Contract cyn dechrau pob blwyddyn academaidd, ni fyddwch yn gyfrifol am unrhyw Ffioedd am weddill eich amser gyda ni. Er hynny, os ydych am derfynu'r Contract hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd dan sylw, mae'n bosib y byddwch yn gyfrifol am y Ffioedd am y rhan sy'n weddill o'r flwyddyn academaidd, a byddwn yn trafod â chi faint o ad-daliad y gallai fod gennych hawl iddo. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd gennych hawl i gael ad-daliad llawn yn yr amgylchiadau hyn.

Pryd y ceir atal y Contract hwn dros dro

6.3.6 Mae'n bosib y bydd adegau pan fydd angen i chi atal eich astudiaethau dros dro oherwydd amgylchiadau esgusodol, megis salwch, neu brofedigaeth. Bydd angen i chi gysylltu â'ch adran academaidd a/neu'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd os ydych yn cael unrhyw anawsterau a allai effeithio ar eich gallu i barhau â'ch rhaglen. Os cytunwn i atal y Contract dros dro, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig.

6.3.7 Mae'n bosib y bydd adegau pan fydd angen i'r Brifysgol atal eich astudiaethau a/neu'r Contract hwn dros dro mewn amgylchiadau lle'r honnir eich bod wedi torri eich rhwymedigaethau o dan y Contract hwn, ac mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i atal eich astudiaethau a/neu'r Contract hwn dros dro drwy roi rhybudd ysgrifenedig i chi.

**7.** Darpariaethau ychwanegol os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol

7.1 Chi sy'n gyfrifol am sicrhau y gallwch ddangos bod gennych hawl i astudio yn y Deyrnas Unedig. Bydd angen fisa astudio ar ymgeiswyr o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig fel arfer er mwyn gallu cofrestru ac astudio ar gwrs yn y Brifysgol. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gennych ganiatâd fisa perthnasol a'ch bod yn cydymffurfio â thelerau'r fisa.

7.2 Mae'r Brifysgol yn 'noddwr' cofrestredig o dan system fewnfudo seiliedig ar bwyntiau Fisa Myfyriwr. Mae hynny'n golygu y gallwn ddenu a noddi myfyrwyr sy'n wladolion gwledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu nawdd Fisa Myfyriwr yn ôl oddi wrth unrhyw fyfyriwr nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau ynghylch fisâu fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Gartref a therfynu'r Contract hwn fel y nodir ym mharagraff 6.1.10 uchod.

7.3 Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am fisâu neu fewnfudo, cysylltwch â'r Swyddog Cydymffurfiaeth: compliance@aber.ac.uk.

**8. Ein hawl i amrywio'r Contract a'r Gwasanaethau** Pryd y

cawn wneud newidiadau i'r Contract a/neu'r Gwasanaethau

8.1 Bydd y Brifysgol bob amser yn ceisio gwneud cyn lleied â phosib o newidiadau i'r rhaglenni ac yn rhoi gwybodaeth briodol i chi. Er hynny, mae'n bosib y bydd yn rhaid gwneud rhai newidiadau, er enghraifft i raglenni neu gyfleusterau, am resymau staffio, ariannol, cyfreithiol, rheoleiddiol a/neu academaidd dilys. Mae'r paragraff 8 hwn yn disgrifio'r amgylchiadau pan gawn wneud newidiadau, ac yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi ynglŷn â beth i'w wneud pan fyddwn am wneud newidiadau o'r fath.

8.2 Nid yw'r paragraff 8 hwn yn disgrifio pob un o'r amgylchiadau a all godi tra byddwch yn astudio gyda ni, ond bydd y rhai a nodir yn rhoi rhywfaint o gyd-destun i chi o ran pryd y gallai fod angen i ni newid y Contract (gan gynnwys y Gwasanaethau a'r rhaglen). Mae paragraff 8.6 yn rhoi enghreifftiau i chi o'r mathau o newidiadau a allai godi am y rhesymau a nodir ym mharagraff 8.5.

Newidiadau i'r wybodaeth cyn y contract

8.3 Mae fersiwn print y prosbectws yn gywir adeg ei gyhoeddi. Gwneir unrhyw newidiadau i fersiwn print y prosbectws i'r fersiwn ar-lein a chynghorir ymgeiswyr yn gryf i ddarllen y prosbectws ar-lein cyn gwneud cais a derbyn y Cynnig. Mae gwybodaeth ar gael ar ryngwyneb chwilio rhaglenni ar-lein y Brifysgol: https://programmes.aber.ac.uk/

8.4 Mae'n bosib y bydd adegau pan fydd y Brifysgol yn barnu, yng nghyd-destun ei dibenion ehangach, bod angen peidio â darparu'r rhaglen neu gyfuno'r rhaglen â rhaglenni astudio eraill. Os bydd y Brifysgol yn penderfynu cymryd camau o'r fath cyn i'r rhaglen gychwyn, fe wneir ymdrechion rhesymol i roi gwybod i chi ymlaen llaw, a bydd gennych hawl i ganslo'r Contract hwn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Brifysgol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd gennych hawl i gael ad-daliad o unrhyw flaendal/Ffioedd rydych wedi'u talu i'r Brifysgol.

Newidiadau y mae angen eu gwneud ar ôl ffurfio'r Contract

8.5 Gallwn wneud newidiadau i'n Contract (gan gynnwys i'r Gwasanaethau a/neu'r rhaglen):

8.5.1 i adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith a/neu ofynion cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio a/neu reoleiddio'r sector;

8.5.2 yn unol â gofynion y gyfraith, polisi'r llywodraeth, gofynion neu ganllawiau rheoleiddio a/neu benderfyniad llys cymwys neu gorff tebyg;

8.5.3 oherwydd gofynion darparwyr lleoliadau;

8.5.4 i weithredu newidiadau technegol neu weithdrefnol i'n systemau TG;

8.5.5 i ymdrin â newidiadau na ellir eu hosgoi i'n staff academaidd a/neu staff cymorth;

8.5.6 i ymdrin â bygythiad i ddiogelwch a/neu i ymateb i fygythiad i ddiogelwch;

8.5.7 i weithredu canllawiau arfer da a/neu ganllawiau sectoraidd, proffesiynol, rheoleiddiol neu gyrff sectoraidd;

8.5.8 i helpu'r Brifysgol i weithredu'n effeithiol;

8.5.9 yn sgil argymhellion neu ofynion cyrff proffesiynol, rheoleiddiol neu statudol, neu er lles y myfyrwyr a/neu'r staff;

8.5.10 yn sgil adborth y myfyrwyr, adborth arholwyr allanol neu adolygiadau mewnol ar raglenni;

8.5.11 i adlewyrchu datblygiadau perthnasol i safonau neu ofynion dysgu academaidd, ymchwil a/neu broffesiynol i sicrhau bod cynnwys ein rhaglenni a'r modd y'u cyflwynir yn gwbl gyfoes a pherthnasol;

8.5.12 i adlewyrchu gostyngiad yn y niferoedd sydd wedi cofrestru neu a fydd yn cofrestru yn y dyfodol;

8.5.13 i adlewyrchu newidiadau i'n cyfleusterau;

8.5.14 i adlewyrchu unrhyw uno ar ein safleoedd a/neu gampws;

8.5.15 am resymau iechyd a diogelwch;

8.5.16 am unrhyw reswm dilys arall.

<u>Pa fathau o newidiadau allai ddigwydd?</u>

8.6 Gallai'r rhesymau ym mharagraff 8.5 uchod beri i ni wneud nifer o wahanol newidiadau yn sgil y rhesymau hynny. Rydym wedi nodi yn y paragraff hwn rai enghreifftiau o'r ymatebion hyn, ac i'ch helpu i ddeall yr hyn y gallai newidiadau o'r fath ei olygu i chi'n ymarferol, rydym wedi gwneud hyn drwy gyfeirio at yr enghreifftiau hynny dan y penawdau "newidiadau mawr" a "mân newidiadau".

*Mân Newidiadau* (rhai enghreifftiau, ond nid rhestr gyflawn):

8.6.1 newidiadau rhesymol i'r amserlen ar gyfer cyflwyno eich rhaglen;

8.6.2 newidiadau rhesymol i nifer y dosbarthiadau/darlithoedd a gweithgarwch dysgu arall sy'n gysylltiedig â'r rhaglen;

8.6.3 newidiadau rhesymol i'r ffordd y darparwn wasanaethau TG a llyfrgelloedd i chi;

8.6.4 newidiadau rhesymol i ddulliau cyflwyno a/neu asesu'r rhaglen;

8.6.5 amrywiadau rhesymol i gynnwys a maes llafur y rhaglen;

8.6.6 newidiadau i union leoliad adnoddau dysgu eich rhaglen, a bwrw eu bod o'r un safon â'r hyn a hysbysebir yn ein llenyddiaeth;

8.6.7 ychwanegu a/neu dynnu modiwlau yn ôl nad ydynt yn rhai craidd yn eich rhaglen;

8.6.8 newidiadau i restrau darllen yn sgil newidiadau i'r maes pwnc perthnasol sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen i sicrhau bod y rhestrau mor gyfoes ag y bo modd;

8.6.9 newidiadau gweithdrefnol i'n Contract sy'n helpu i'w wella mewn ffordd sydd o fudd chi;

8.6.10 newidiadau i'n rheoliadau, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau a restrir yn Atodlen 1, a atodwyd.

*Newidiadau Mawr* (rhai enghreifftiau, ond nid rhestr gyflawn)

8.6.11 newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn dysgu, yn cyflwyno a/neu yn asesu rhaglen, er enghraifft, newid arwyddocaol yn y cydbwysedd rhwng asesu gwaith cwrs ac arholiadau ledled y rhaglen;

8.6.12 ychwanegu a/neu dynnu rhai modiwlau craidd/gorfodol yn ôl o'ch rhaglen;

8.6.13 newidiadau i'r math o asesiadau yn y rhaglen;

8.6.14 newidiadau i deitl eich dyfarniad;

8.6.15 newidiadau i deitl eich rhaglen;

8.6.16 gwneud addasiadau mwy sylweddol i'n rhaglenni;

8.6.17 newidiadau i'n gweithdrefnau diogelwch i'r graddau y gallai hynny effeithio'n sylweddol ar y ffordd yr oeddech yn arfer ymddwyn pan oeddech ar y campws gyda ni;

8.6.18 newidiadau sylweddol i leoliad neu fanyleb adnoddau dysgu eich rhaglen, a allai gynnwys symud y rhaglen i leoliad arall nad yw ar un o'n dau safle (h.y. Penglais neu Llanbadarn);

8.6.19 gwneud newidiadau sylweddol i'n Contract sy'n helpu i wella'r Contract ond nad yw'r cyfryw newidiadau o fudd i chi;

8.6.20 penderfyniad i newid "gofynion craidd" y rhaglen (ystyr "gofynion craidd" yw modiwlau craidd);

8.6.21 penderfyniad i gyfuno dwy raglen neu fwy neu ailstrwythuro sylweddol tebyg ar raglen radd, sy'n golygu bod y naill a'r llall o'r ddwy raglen neu fwy i bob pwrpas yn dod i ben fel rhaglenni ar eu pen eu hunain.

Sut y byddwn yn rhoi gwybod i chi am newidiadau i'r Contract a beth fydd yn digwydd os nad ydych yn cytuno â'r newidiadau

8.7 Os bydd mân newidiadau, byddwn yn rhoi gwybod i chi amdanynt, er enghraifft trwy ddiweddaru'r gronfa ddata ar-lein o fodiwlau a thrwy roi cymaint o rybudd ag sydd, yn ein barn ni, yn briodol yn yr amgylchiadau. Os oes modd, byddwn yn ceisio rhoi rhybudd i chi ymlaen llaw, ond efallai na fydd hyn yn bosib bob amser.

8.8 Fel rheol, bydd unrhyw newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, er ei bod yn bosib y caiff newid ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd lle y bydd y Brifysgol yn rhesymol o'r farn fod hynny er budd y myfyrwyr neu os yw'n ofynnol o dan y gyfraith neu mewn amgylchiadau eithriadol eraill. Bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod newidiadau o'r fath yn tarfu cyn lleied â phosib ar y myfyrwyr lle y bo hynny'n bosibl, er enghraifft, drwy roi rhybudd rhesymol o newidiadau i reoliadau cyn iddynt ddod i rym, neu drwy gyflwyno'r newidiadau fesul cam, os bydd hynny'n briodol.

8.9 Bydd unrhyw reoliadau a ddiweddarwyd yn cael eu rhoi ar wefan y Brifysgol ac mae'n bosib y defnyddir dulliau eraill i godi ymwybyddiaeth ohonynt er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am y newidiadau.

8.10 Os bydd newidiadau mawr, byddwn yn ymgynghori â chi cyn i unrhyw newid gael ei gyflwyno. Ymgynghorir â'r myfyrwyr, naill ai drwy'r Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr (SSCC), neu â myfyrwyr unigol y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, drwy ebost, a bydd angen cytundeb yr holl fyfyrwyr. Bydd union natur yr ymgynghoriad yn dibynnu ar hyd a lled y newidiadau a gynigir. Ar ôl y broses ymgynghori, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y newid dan sylw, ac yn rhoi manylion i chi ynghylch sut y gallai effeithio ar eich astudiaethau gyda ni.

8.11 Os nad ydych yn cytuno â newid mawr a wnawn i'r Contract, byddwn yn cynnig cyfle i chi i derfynu'r Contract, ac efallai y bydd gennych hawl i gael ad-daliad priodol o'r Ffioedd rydych wedi'u talu i ni. Byddwn hefyd yn ceisio cynnig lle i chi ar raglen arall yn y Brifysgol fel y bo hynny'n briodol, yn amodol ar y manylion ym mharagraff 8.14.

8.12 Os na chysylltwch â ni i ddweud nad ydych yn cytuno â'r newid mawr rydym yn bwriadu ei wneud i'r Contract, byddwn yn tybio eich bod yn fodlon parhau â'ch rhaglen ar y sail bod y newid dan sylw yn cael ei weithredu.

Tynnu rhaglen yn ôl

8.13 Mae'n bosib weithiau y bydd angen i ni dynnu rhaglen yn ôl neu gyfuno'r rhaglen â rhaglenni eraill, os oes angen gwneud hynny oherwydd un o'r rhesymau a nodir ym mharagraff 8.5. Gallai hynny ddigwydd naill ai cyn i chi ddechrau eich rhaglen gyda ni, neu yn ystod cyfnod y Contract hwn.

8.14 Os yw paragraff 8.13 yn berthnasol, byddwn yn cymryd camau rhesymol i geisio cynnig lle i chi ar raglen arall yn y Brifysgol fel y bo'n briodol (yn amodol ar yr hyn sydd ar gael ac a bwrw eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion mynediad a chofrestru ar gyfer y rhaglen honno); neu (ar eich cais) i'ch cynorthwyo i ymuno â rhaglen arall mewn sefydliad arall, ac (os yw hynny'n briodol) ad-dalu'r Ffioedd a dalwyd.

8.15 Os nad ydych wedi cychwyn eich astudiaethau eto, cymerir pob cam angenrheidiol (gan gynnwys, lle y bo hynny'n briodol, ar system UCAS) i'ch galluogi i ddewis rhaglen ychwanegol (yn y Brifysgol neu mewn sefydliad arall).

Newidiadau i Ffioedd eich rhaglen

8.16 Bydd gan y Brifysgol hawl i gynyddu Ffioedd yn unol â pharagraffau 2.7-2.9 (yn gynhwysol).

**9.** Ein gweithdrefnau cwyno

9.1 Os ydych am wneud cwyn ynghylch agwedd ar wasanaeth derbyn israddedigion y Brifysgol dylech gysylltu â'r Cofrestrydd Academaidd yn ysgrifenedig drwy e-bostio: aqrstaff@aber.ac.uk, neu drwy'r post: Prifysgol Aberystwyth, Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3DD. Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn cysylltu â chi ymhen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law.

9.2 Os na fyddwch yn fodlon â'r ymateb cychwynnol a gewch, dylech gysylltu'n ysgrifenedig â'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr), Prifysgol Aberystwyth, y Ganolfan Ddelweddu, Campws Penglais, Aberystwyth, SY23 3BF. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn ceisio rhoi ymateb cychwynnol ymhen pum diwrnod gwaith.

9.3 Os ydych am wneud cwyn ar ôl cofrestru yn fyfyriwr yn y Brifysgol, dylech ddilyn ein trefn gwyno i fyfyrwyr a ddisgrifir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn [https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/complaints/](https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/complaints/)

Opsiynau eraill sydd ar gael i chi os cewch broblem â'r Contract hwn

9.4 O dan y dull amgen o ddatrys anghydfod mae corff annibynnol yn ystyried ffeithiau'r anghydfod ac yn ceisio'i ddatrys, heb i chi orfod mynd i'r llys. Os nad ydych yn hapus â'r ffordd rydym wedi ymdrin ag unrhyw gŵyn gan fyfyriwr, efallai y byddwch am gysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. I gael rhagor o fanylion ewch i wefan y Swyddfa - http://www.oiahe.org.uk/.

**10.** Prosesu Data

10.1 Wrth ymgeisio am raglen yn y Brifysgol a chofrestru arni, mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bersonol. Mae rheidrwydd ar y Brifysgol hefyd i gasglu, prosesu a chadw ystod eang o wybodaeth amdanoch tra byddwch yn fyfyriwr gyda ni, a gall hynny gynnwys data personol sy'n sensitif ei natur.

10.2 Cedwir gwybodaeth bersonol gan y Brifysgol yn unol â thelerau Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth arall gysylltiedig. Dylai ymgeiswyr llwyddiannus i gynlluniau gradd trwyddedig a rhaglenni astudio cyfun, deuol a dwbl fod yn ymwybodol y bydd eu data wrth ymgeisio yn cael ei rannu â'r sefydliad partneriaethol i ddibenion derbyn. Datgelir gwybodaeth bersonol i drydydd partïon mewn amgylchiadau dan reolaeth dynn.

10.3 Mae'r Brifysgol yn gorfod cyflwyno data i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn flynyddol i gynorthwyo dadansoddiadau ystadegau cenedlaethol. Wrth gofrestru'n fyfyriwr gyda ni rydych yn cytuno i ganiatáu i'r Brifysgol ddarparu gwybodaeth yn unol â'n rhwymedigaethau prosesu data.

10.4 Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch am ein polisïau prosesu data a diogelu data, cysylltwch â'r Swyddfa Cydymffurfiaeth Gwybodaeth: infocompliance@aber.ac.uk

**11.** Telerau pwysig eraill

11.1 Mae pob paragraff yn y Telerau a'r Amodau hyn yn gweithredu ar wahân. Os bydd unrhyw lys neu awdurdod perthnasol yn penderfynu bod unrhyw un ohonynt yn anghyfreithlon, bydd y paragraffau eraill yn dal mewn grym yn llawn.

11.2 Bydd unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall a wneir o dan y Telerau a'r Amodau hyn yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig ac yn cael eu cyfeirio atoch yn y cyfeiriad e-bost neu bost diwethaf a ddarparwyd gennych i'r Brifysgol, a bernir eu bod wedi'u cyflwyno'n briodol os danfonir hwy drwy e-bost, â llaw pan adawir hwy yn y cyfeiriad post hwnnw neu os anfonir hwy drwy'r post dosbarth cyntaf 48 awr ar ôl cael eu postio i'r cyfeiriad hwnnw.

11.3 Hyd nes y cofrestrwch â ni ar ddechrau eich blwyddyn academaidd gyntaf, rhaid i chi sicrhau eich bod wedi darparu eich manylion cyswllt diweddaraf gan ddefnyddio UCAS Track neu drwy roi gwybod i'r Swyddfa Derbyn Israddedigion (e-bost: ug-admissions@aber.ac.uk, Ffôn: +44 (0) 1970 622021). Ar ôl i chi gofrestru â ni, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod wedi darparu eich manylion cyswllt diweddaraf drwy system cofnod myfyriwr y Brifysgol a fydd ar gael i chi pan ddechreuwch gyda ni.

11.4 Os torrwch delerau ein Contract ac os bydd y Brifysgol yn dewis peidio â mynnu eich bod yn cyflawni unrhyw rai o'ch rhwymedigaethau o dan y Contract, neu os nad ydym yn gorfodi ein hawliau yn eich erbyn, neu os byddwn yn araf yn gwneud hynny, nid yw hynny'n golygu ein bod wedi ildio ein hawliau yn eich erbyn ac ni fydd yn golygu na fydd yn rhaid i chi gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

11.5 Mae hwn yn Gontract rhyngoch chi a ni. Ni fydd gan unrhyw berson arall hawliau i orfodi unrhyw rai o'i delerau.

11.6 Rheolir y Contract dan gyfraith Loegr. Rydych chi a ninnau'n cytuno bod gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth dros unrhyw anghydfodau a all godi o dan y Contract hwn. Fodd bynnag, os ydych yn preswylio yng Ngogledd Iwerddon cewch hefyd ddwyn achos yng Ngogledd Iwerddon, ac os ydych yn preswylio yn yr Alban, cewch hefyd ddwyn achos yn yr Alban.

## 12. Myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni Prifysgol Aberystwyth a gyflenwir gan Bartner Ddarparwr

12.1 Dim ond i fyfyrwyr sy'n ymgymryd ag un o raglenni astudio Prifysgol Aberystwyth gyda Phartner Ddarparwr, er enghraifft trwy drefniant trwyddedu neu raglen radd gyfun/ddeuol/ddwbl, y mae'r cymal hwn yn berthnasol. Os nad Prifysgol Aberystwyth sy'n darparu'r rhaglen, bydd eich cynnig yn nodi'n glir pwy yw'r Partner Ddarparwr.

Cytundeb Partner Ddarparwr

12.2 Yn ogystal â'ch cytundeb gyda Phrifysgol Aberystwyth, byddwch hefyd yn creu cytundeb gyda'r darparwr, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel Cytundeb Partner Ddarparwr, a fydd yn caniatáu ichi fynychu eu heiddo i ddilyn eich Rhaglen Astudio. Cytundeb rhyngoch chi a'r Partner Ddarparwr yn unig yw hwn, ac ni ellir ei orfodi gan nac yn erbyn Prifysgol Aberystwyth. Bydd y cytundeb yn rheoleiddio'ch perthynas â'r partner ac yn manylu ar yr hyn a ddisgwylir ohonoch wrth ichi fynychu'r eiddo er mwyn astudio o dan y cytundeb hwn. Mae eich cytundeb gyda Phrifysgol Aberystwyth yn amodol ar ichi gytuno â thelerau'r Cytundeb Partner Ddarparwr ac fe gaiff ei derfynu yn yr amgylchiadau canlynol:

12.2.1 Os nad ydych yn derbyn telerau'r Cytundeb Partner Ddarparwr cyn cwblhau'r Cofrestru neu'r ailgofrestru yn unrhyw flwyddyn academaidd;

12.2.2 Eich bod yn derbyn ond ar ôl hynny'n terfynu eich Cytundeb gyda'r Partner Ddarparwr am ba reswm bynnag; neu

12.2.3 Bod y darparwr yn terfynu ei gytundeb gyda chi'n gyfreithiol am ba reswm bynnag ac nad yw'n bosibl ichi drosglwyddo i Brifysgol Aberystwyth i gwblhau eich rhaglen astudio ar un o'i champysau.

12.3 Yn ogystal â'r darpariaethau a restrir yng nghymal 6, mae gan y Brifysgol yr hawl i derfynu ei chontract â chi os methwch â chydymffurfio mewn dull perthnasol yn achos unrhyw un o'ch rhwymedigaethau a nodir yn y Cytundeb Partner Ddarparwr gyda'r partner dan sylw. Mewn amgylchiadau o'r fath, daw'r canlyniadau a nodir yng nghymal 6.2 i rym.

12.4 Yn achos unrhyw wrthdaro rhwng y telerau a nodir yn y cytundeb hwn a'r telerau yn eich Cytundeb Partner Ddarparwr, y telerau yn eich contract gyda Phrifysgol Aberystwyth fydd drechaf oni bai y gellir dod i gytundeb arall rhyngoch chi, Prifysgol Aberystwyth a'r partner ddarparwr.

Ffioedd

12.5 Oni bai ein bod yn eich hysbysu'n wahanol yn ysgrifenedig, rydych yn gyfrifol am dalu unrhyw Ffioedd Dysgu neu ailsefyll sy'n ddyledus yn uniongyrchol i Brifysgol Aberystwyth. Bydd manylion ynglŷn â thalu ffioedd wedi eu hamlinellu yn y llyfryn Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus.

Cyfleusterau ac Adnoddau

12.6 Yn ystod eich cwrs astudio, y Partner Ddarparwr ac nid Prifysgol Aberystwyth fydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau i gynorthwyo eich rhaglen astudio (yn achos rhaglenni a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol oddi ar Gampws Prifysgol Aberystwyth). Bydd eich hawl i ddefnyddio'r gwasanaethau hynny'n cael ei reoleiddio gan y cytundeb rhyngoch chi a'r Partner Ddarparwr.

Manylion Rhaglenni

12.7 Mae gwybodaeth ynglŷn â Manylion Rhaglen sy'n berthnasol i'ch rhaglen astudio i'w cael drwy ofyn i Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion y Brifysgol.

ATODLEN 1

| Dogfen Bolisi | Lle mae cael gafael ar y ddogfen hon |
|---|---|
| Llawlyfrau Adrannol y Brifysgol | https://www.aber.ac.uk/cy/departments/ |
| Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol a Gwybodaeth i Fyfyrwyr | https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/#important-information-for-students |
| Rheoliadau Dyfarniadau'r Brifysgol | https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/#regulations |
| Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol | https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/weithdrefn-disgyblu-myfyrwyr/ |
| Gweithdrefnau cwynion, apeliadau ac adolygiadau terfynol y Brifysgol | Y Weithdrefn Apeliadau Academaidd:<br>https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/appeals/<br>Gweithdrefn Apelio'r Myfyrwyr:<br>https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/complaints/<br>Y Weithdrefn Adolygiadau Terfynol:<br>https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/fr/ |
| Rheoliadau ynghylch Eiddo Deallusol a Masnacheiddio | https://www.aber.ac.uk/cy/research/good-practice/data-management/how/legal/ |
| Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol | https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/aberpoliciesprocedures/Equal-Opportunities-Policy---2021-1.pdf |
| Polisi'r Brifysgol ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol | https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/uap/ |
| Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol | https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/about-governance/ |
| Rheoliadau ffioedd a thaliadau'r Brifysgol | https://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/fees-finance/ |
| Rheolau ynghylch defnyddio adnoddau'r llyfrgelloedd | https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/ |
| Amodau, polisi a chanllawiau ynghylch defnyddio TG ac adnoddau'r rhwydwaith | https://www.aber.ac.uk/cy/is/it-services/; |
| Rheoliadau ynghylch cyflwyno gwaith i'w asesu ar raglenni drwy gwrs | https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/taught-schemes/ |
| Polisi'r Brifysgol ar gymedroli a marcio dwbl | https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/taught-schemes/ |
| Rheoliadau ynghylch gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Brifysgol i ystyried amgylchiadau esgusodol ar gyfer astudiaethau myfyrwyr | https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/taught-schemes/ |
| Gwybodaeth am Bartneriaethau Academaidd | https://www.aber.ac.uk/cy/academic-partnerships/ |
| Rheoliadau'r Brifysgol i Fyfyrwyr | https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/student-rules-regs/ |
| Rhagor o wybodaeth | https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/student-info |

## ATODLEN 2

**Ffurflen 'Ailfeddwl'**

At [NODWCH]

Rwyf i [*enw'r myfyriwr*] trwy hyn yn hysbysu fy mod i [*enw'r myfyriwr*] yn canslo fy nghontract ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau:

Dyddiad gwneud y cais: ______________________________________

Dyddiad derbyn y cynnig: ______________________________________

Enw'r myfyriwr:

Cyfeiriad y myfyriwr:

[Llofnod y myfyriwr:]

Dyddiad